I ychwanegu at y cyfanswm yma bu rhai o blant yr ysgol o amgylch y pentre ar Noson Calan Gaeaf a chasglwyd £10 ganddynt. Mawr yw ein diolch iddynt am sylweddoli gwir bwysigrwydd apêl o'r fath a'u hawydd i chwyddo'r gronfa. Diolch arbennig felly i Karen a Lynne Hughes, Siôn a Dylan James, Sioned Thomas, Emma Jones a James Scurlock.

Mynychodd rhai o ddisgyblion dosbarth 4 weithdai drama yn Theatr y Werin, Aberystwyth dros wyliau hanner tymor a chawsant hwyl a phrofiad gwerthfawr.

Erbyn hyn mae Adran yr Urdd wedi ail gychwyn. Bu'r cyfarfod cyntaf ar nos Lun, Hydref 31ain pan gynhaliwyd disgo Calan Gaeaf. Roedd bob plentyn yn yr ysgol wedi gwneud mwgwd arbennig i'r noson ac yn nhywyllwch y neuadd a'r goleuadau llachar yn fflachio roedd hi'n ddigon i godi braw ar y dewraf ohonom.

Ddechrau Tachwedd bu nifer o'r plant yn cymryd rhan yng Ngala Nofio'r Urdd ym mhwll nofio Plascrug a gwnaethant waith canmoladwy iawn.

Croesawn Mrs E. Scurlock yn ôl at ei dyletswyddau fel ein cogyddes wedi absenoldeb oherwydd afiechyd. Diolch i Mrs Prysorwen Davies am gymryd yr awenau yn ystod absenoldeb Mrs Scurlock a hefyd i Mrs Kay Evans am lanw bwlch gyda gwên.

Llongyfarchiadau cynnes i bedair o'r merched am gipio'r safleoedd blaenaf mewn cyst-adleuaeth arlunio a drefnir yn flynyddol gan 'Y Ford Gron' Aberystwyth. Tynnu llun o Noson Tân Gwyllt oedd y gamp a daeth Melanie Evans a Lisa Humphreys yn gyntaf ac ail yn yr adran dan 12 oed tra cafodd Rhian Haf Williams a Charlotte Read gyntaf ac ail yn yr adran 7 - 9 oed. Cafodd y lluniau buddugol eu harddangos gan Gymdeithas Adeiladu'r Nationwide Anglia yn Aberystwyth.

Dymuniadau gorau i ddau o'r disgyblion a ffarweliodd â ni yn ddiweddar, sef Richard a Rhys Jeremiah. Croesawn ddwy chwaer o Swydd Efrog i'r ysgol hefyd. Mae Sarah ac Emma Maskery yn hapus braf yma yn ein plith.

****